



## YSGOL GYMUNED BRYNGWRAN POLISI E-DDIOGELWCH

Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb i sicrhau mynediad rhyngwrwyd fel rhan o brofiad dysgu ein disgyblion ar draws pob agwedd o'r Cwricwlwm. Mae defnydd o'r rhyngwrwyd yn arf hanfodol o ddysgu gydol oes.

O'i ddefnyddio a'i gyflwyno'n gywir, credwn fod mynediad i'r rhyngwrwyd yn codi safonau, yn cefnogi gwaith proffesiynol yr athro/athrawes dosbarth ac yn cryfhau a chefnogi systemau rheolaeth amrywiol yr ysgol.

Rydym yn cydnabod fod yr angen sicrhau mynediad diogel i'r we yn yr ysgol a thu hwnt yn hanfodol. Rydym angen addysgu ein disgyblion sut i arfarnu'r wybodaeth a ganfyddir o'r rhyngwrwyd a'u haddysgu sut i gymryd gofal a bod yn gyfrifol am eu e-Ddiogelwch.

Mae e-Ddiogelwch yn berthnasol i dechnoleg rhyngwrwyd a chysylltiadau electronig eraill. Byddem yn addysgu disgyblion am beryglon defnyddio'r rhyngwrwyd a thechnoleg ac hefyd yn eu harfogi gyda ymwybyddiaeth am sut gall y rhyngwrwyd a thechnoleg fod o fudd iddynt. Bydd yr ysgol drwy weithio ar y cyd gyda CYNNAL (rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth) yn gosod strwythur diogelu er mwyn rheoli profiad 'ar lein' ein disgyblion.

Rhodddwn sylw i farn a safbwynt y Cyngor Ysgol ar faterion diogelwch gan gydnabod Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ystyried y polisi hwn.

### Nodau

- I roi arweiniad pendant i bob defnyddiwr rhyngwrwyd fel eu bod yn ymwybodol o'r risgiau a'r budd sydd i'w gael o ddefnyddio'r rhyngwrwyd.

### Camau Gweithredu

#### Rôl y Llywodraethwyr

##### Mae'r Llywodraethwyr wedi:

- dirprwyo pwerau a chyfrifoldebau i'r Pennaeth i sicrhau fod holl staff ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r polisi ac yn cadw ato.

##### Mae gan y Llywodraethwyr:

- gyfrifoldeb i sicrhau fod arian digonol ar gael i gefnogi'r polisi hwn;
- gyfrifoldeb am sicrhau fod polisiau ar gael i rieni;
- hawl i dderbyn arweiniad ac hyfforddiant ar e-Ddiogelwch a chamau gweithredu;
- gyfrifoldeb dros weithrediad llwyddiannus y polisi hwn ac am ei werthuso a'i hadolygu.

#### Rôl y Pennaeth

##### Bydd y Pennaeth yn:

- sicrhau bod pob aelod staff, disgyblion a rhieni yn ymwybodol o fodolaeth y polisi a'r angen i gydymffurfio â'r polisi;
- gweithio gyda'r Llywodraethwyr a'r asiantaeth cefnogol allanol i greu, gosod, sefydlu a chynnal amgylchedd addysgu TGCh ddiogel:

- ystod o arfau TGCh effeithiol
  - camau diogelu
  - polisi cynhwysfawr ar gyfer disgyblion, staff a rhieni;
- monitro effeithiolrwydd y polisi hwn;

### **Rôl y Cydlynnydd e-Ddiogelwch / Pennaeth**

#### **Fel cydlynnydd bydd y Pennaeth yn:**

- sicrhau fod pob defnyddiwr rhyngrwyd yn ymwybodol o'r arweiniad diweddaraf parthed e-Diogelwch;
- monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y polisi.

### **Rôl Staff**

#### **Bydd y Staff yn:**

- cydymffurfio gyda pob agwedd o'r polisi hwn;
- derbyn termau 'Defnydd Priodol a Chyfrifol o'r Rhyngrwyd' cyn defnyddio y rhyngrwyd fel adnodd yn yr ysgol;
- gyfrifol am hyrwyddo a chefnogi defnydd diogel, ymddygiad diogel a systemau e-Ddiogelwch;
- derbyn hyfforddiant ac arweiniad perthnasol.

### **Rôl Disgyblion**

#### **Mae'n rhaid i ddisgyblion fod yn ymwybodol o'r polisi hwn a chael eu haddysgu i:**

- fod yn feirniadol o'r wybodaeth a ganfyddir;
- gwirio'r wybodaeth cyn derbyn ei gywirdeb;
- gydnabod ffynhonnell y wybodaeth a ddefnyddiwyd;
- ddefnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwilio;
- barchu hawlfraint rhai pethau oddi ar y rhyngrwyd;
- hysbysebu aelod o staff pe byddai deunydd annerbyniol yn ymddangos neu yn cael ei dderbyn drwy e-bost.

### **Rôl Rhieni/Gwarcheidwaid**

#### **Bydd rhieni/gwarcheidwaid yn:**

- derbyn gwybodaeth perthnasol i'r polisi ac am fodolaeth y polisi;
- gwneud yn sicr eu bod hwythau yn addysgu eu plentyn/plant am e-Ddiogelwch.

### **Defnydd Rhyngrwyd**

#### **Bydd mynediad rhyngrwyd yr ysgol yn:**

- cael ei gynllunio gyda defnydd plant mewn golwg yn unig;
- cynnwys meddalwedd a system ffiltro a gymeradwyir gan CYNNAL a'r Awdurdod Addysg/CSYM;
- cael ei hadolygu a'i wella os oes angen.

### **Caniatau Defnydd o'r Rhyngrwyd**

- cyn defnyddio unrhyw adnodd TGCh mae'n rhaid i bob aelod staff a disgybl fod yn ymwybodol o'r hyn a ystyrir yn ddefnydd priodol o'r rhyngrwyd;

### **Gwefan yr Ysgol**

#### **Manylion cyswllt ar y wefan fydd:**

- cyfeiriad yr ysgol;
- cyfeiriad e-bost yr ysgol;
- rhif ffôn

**Ni fydd y canlynol yn ymddangos ar wefan yr ysgol:**

- manylion cyswllt aelodau staff, rhieni na disgyblion;
- lluniau o ddisgyblion heb gytundeb y rhieni o flaen llaw;

**Rhwydweithiau Cymdeithasol – Facebook, snapchat, Twitter a Cyhoeddi Personol a.y.y.b.**

Atelir mynediad disgyblion a staff i wefanau Rhwydweithiau Cymdeithasol.

**Deunydd Amhriodol**

Dylid hysbysu y Pennaeth am unrhyw ddeunydd amhriodol sydd yn ymddangos ar ddamwain neu beidio. Cyfrifoldeb y Pennaeth fydd sicrhau fod y rheolwyr mynediad CSYM/CYNNAL yn cael manylion.

Byddai ymgais i ganfod deunydd amhriodol yn gallu arwain at gamau gwahardd yn achos disgyblion a disgyblu yn achos aelodau staff.

**System Diogelu Rhyngrwyd**

- Caiff meddalwedd ei osod ar pob cyfrifiadur ysgol gan dechnegwyr CYNNAL neu’r Awdurdod. Mae CYNNAL/CSYM yn gosod meddalwedd ee Surf Protect a F-Secure ar systemau cyfrifiadurol yr ysgol ac yn atal mynediad i safweoedd amhriodol.
- Ni ddylid defnyddio teclynnau cadw/recordio personol yn yr ysgol rhag ofn achosi lledu firws cyfrifiadurol a.y.y.b.

**Cwynion**

- Bydd y Pennaeth yn delio gyda cwynion parthed camddefnydd o’r rhyngrwyd gan ddisgyblion neu aelodau staff.
- Caiff rhieni eu hysbysu os yw eu plentyn wedi camddefnyddio’r rhyngrwyd.

**Monitro Effeithiolrwydd y Polisi**

Caiff effeithiolrwydd y polisi ei adolygu yn flynyddol neu yn ôl yr angen

<b>Llywodraethwyr Dynodedig</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Cadeirydd y Llywodraethwyr:</b>		<b>Dyddiad:</b>	